
# Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgelloedd Blaenau Gwent 2020-2025

Mae'r strategaeth hon yn rhoi trosolwg o'r weledigaeth ar gyfer y gwasanaeth llyfrgelloedd ym Mlaenau Gwent. Bydd yn amlinellu nodau ac amcanion y gwasanaeth ac yn dangos sut y bydd yn cyfrannu at agenda llywodraethau lleol a chenedlaethol.



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cefndir | 3 |
| Ein gweledigaeth | 4, 5 |
| Rôl statudol a chyd-destun strategol | 6, 7 |
| Ein nodau strategol allweddol | 8, 9, 10 |
| Sut y byddwn yn cyflawni’r deilliannau hyn | 11 |
| Rhoi adroddiadau am berfformiad | 14 |

## Cefndir

Rheolir a darperir y gwasanaeth llyfrgelloedd ym Mlaenau Gwent trwy Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin.  Hwn oedd y gwasanaeth llyfrgelloedd cyntaf yng Nghymru i gael ei drosglwyddo'n llawn, yn ei gyfanrwydd, i statws ymddiriedolaeth, pan grëwyd Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin yn 2014.  Gyda chontract ugain mlynedd gan yr awdurdod lleol, mae'r ymddiriedolaeth yn cyflenwi gwasanaethau hamdden, dysgu a diwylliannol ar draws Blaenau Gwent. Mae'r ymddiriedolaeth yn sefydliad Dosbarthu Nid Er Elw ac yn elusen gofrestredig.  Fe'i rheolir gan Fwrdd Ymddiriedolwyr ac mae ganddi berthynas waith glos gyda'r awdurdod lleol i sicrhau bod y gwasanaethau yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl trwy wella bywyd cymunedol.

## Y gwasanaeth

Er ei fod yn awdurdod bach mae gan Flaenau Gwent nifer fwy o lyfrgelloedd statig mewn cymhariaeth â bwrdeistrefi eraill.  Mae pedwar o lyfrgelloedd llawn amser, Glynebwy, Tredegar, Brynmawr ac Abertyleri a dau lyfrgell rhan-amser, Cwm a Blaenau.  Yn ychwanegol at hyn mae gwasanaeth dosbarthu i gartrefi yn gweithredu ar draws y fwrdeistref, gan ddosbarthu stoc i breswylwyr nad ydynt yn gallu cael mynediad i lyfrgelloedd lleol. Mae'r gwasanaeth wedi ei gysylltu'n dda â chymunedau, gyda 98% o'r preswylwyr yn byw o fewn 2.5 milltir i lyfrgell.  Felly, fel gwasanaeth atebol yn lleol, mae mewn sefyllfa dda i ymateb i anghenion a phroblemau lleol. Fel gwasanaeth 'o'r crud i'r bedd' mae llyfrgelloedd Blaenau Gwent yn cynnig cyrhaeddiad sylweddol i gymunedau lleol, gan gynnig ffordd gost effeithiol o sicrhau bod gan bobl gysylltiad â'r gwasanaethau y mae arnynt eu hangen pan fydd arnynt eu hangen.

Ar draws Blaenau Gwent, mae llyfrgelloedd yn ganolfannau cymunedol.  Mae ganddynt hanes profedig o weithio mewn partneriaeth ag ystod eang o randdeiliaid; maent yn fannau cymunedol yr ymddiriedir ynddynt, yn rhad ac am ddim i fynd iddynt ac ar agor i bawb ac maent yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan gymunedau lleol a phartneriaid.

## Ein Gweledigaeth

Gweledigaeth Gwasanaeth Llyfrgelloedd Blaenau Gwent yw **– *'Gwella cyfleoedd bywyd pobl, ysbrydoli a chyfoethogi bywydau trwy ddarparu gwasanaethau llyfrgell o safon uchel sy'n berthnasol a hygyrch i bawb'***

Mae'r weledigaeth hon yn ymwneud yn uniongyrchol â datganiad gweledigaeth Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin, sef **'Gwella Bywyd Cymunedol*'***

Credwn bod llyfrgelloedd yn ganolfannau cymunedol hanfodol, yn dwyn pobl at ei gilydd a rhoi mynediad iddynt at y gwasanaethau a'r gefnogaeth y mae arnynt eu hangen i fyw'n well.

Ein huchelgais yw i bawb:

- gael budd o'r canlyniadau cadarnhaol y gall llyfrgelloedd eu cynnig a dewis llyfrgelloedd oherwydd eu bod yn gweld buddion clir

- gael mynediad at wasanaethau llyfrgell diduedd, proffesiynol sydd wedi eu bwriadu i rymuso, uwchsgilio a chynyddu hyder, trwy fynediad at wybodaeth a darllen ym mhob ffurf

- brofi gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol

Bydd y weledigaeth hefyd yn gysylltiedig â chyflawni'r 12 hawl craidd o Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.

Yr hawliau craidd yw:

- Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn rhad ac am ddim i ymuno â nhw, ac yn agored i bawb.
- Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn sicrhau bod staff cyfeillgar, gwybodus a chymwysedig wrth law i helpu.
- Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at ystod o wasanaethau, gweithgareddau ac adnoddau o safon uchel mewn sawl fformat i gefnogi dysgu gydol oes, lles a datblygiad personol, cyfranogiad cymunedol, a diwylliant a hamdden.
- Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu gwasanaethau, cyfleusterau ac adnoddau gwybodaeth priodol i unigolion a grwpiau sydd ag anghenion arbennig.
- Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu gofod ffisegol diogel, deniadol a hygyrch sydd ag oriau agor addas dan ofal staff.
- Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn benthyca llyfrau am ddim ac yn cynnig mynediad am ddim i wybodaeth, gan gynnwys adnoddau gwybodaeth ar-lein ar gael 24 awr y dydd.
- Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu'r Rhyngrwyd a chyfrifiaduron, gan gynnwys Wi-Fi, yn rhad ac am ddim.
- Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at wasanaethau, gweithgareddau diwylliannol ac adnoddau o ansawdd uchel yn y Gymraeg.
- Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth i rannu catalogau a hwyluso mynediad i adnoddau holl lyfrgelloedd Cymru.
- Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn cydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid i hyrwyddo a darparu gwasanaethau i gynulleidfaoedd newydd ac amrywiol
- Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn ymgynghori â defnyddwyr yn rheolaidd i gasglu eu barn ar y gwasanaeth a chasglu gwybodaeth am eu hanghenion newidiol.

- Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at strategaeth, polisïau, amcanion a gweledigaeth y gwasanaeth llyfrgell, mewn print ac ar-lein, mewn amrywiaeth o ieithoedd fel y bo’n briodol i’r gymuned.



**Rôl statudol**

Dan Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964, mae'n ddyletswydd statudol ar bob awdurdod cyhoeddus yng Nghymru i ddarparu "gwasanaeth llyfrgell cynhwysfawr ac effeithlon i bawb sy'n dymuno ei ddefnyddio". Bob blwyddyn mae gofyn i'r holl wasanaethau llyfrgell cyhoeddus yng Nghymru gyflwyno adroddiad i Lywodraeth Cymru am eu perfformiad mewn cymhariaeth â Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru. Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru yw'r dull mesur y gall y Gweinidog sy'n gyfrifol am Lyfrgelloedd ei ddefnyddio i wneud penderfyniad am eu cydymffurfiad â Deddf 1964. Mae'r cyfrifoldeb am lyfrgelloedd ym Mlaenau Gwent yn aros gyda'r awdurdod lleol er gwaethaf y ffaith mai Hamdden Aneurin yw'r modd o'u cyflawni.

**Cyd-destun Strategol**

Mae llyfrgelloedd yn cyfrannu at ystod eang o agendâu Llywodraeth leol a chenedlaethol gan gynnwys

**Cyd-destun Strategol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn sicrhau bod cyrff cyhoeddus ar draws Cymru, gan gynnwys awdurdodau lleol, yn ystyried y tymor hir, yn gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a'i gilydd, yn ceisio osgoi problemau a defnyddio dull mwy diwnïad.
Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Ddeddf yn nodi 7 o nodau llesiant:

- Cymru sy'n ymatebol ar lefel byd-eang
- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd ym Mlaenau Gwent yn cyfrannu at nifer o'r nodau hyn trwy gefnogi addysg a dysgu gydol oes; hyrwyddo iechyd a llesiant a gwella cynhwysiant digidol.

Mae rhaglen Llywodraeth Cymru, 'Symud Cymru Ymlaen' hefyd yn amlinellu'r ymrwymiadau a wnaed i yrru gwelliannau ac i wneud gwahaniaeth ym mywydau pawb yng Nghymru. Mae nodau ac amcanion y gwasanaeth llyfrgelloedd ym Mlaenau Gwent yn cysylltu'n uniongyrchol â'r rhaglen hon.

**Polisïau Lleol**

**Cynllun Corfforaethol Blaenau Gwent 2022-2027**

Y cynllun hwn sy’n nodi llwybr y Cyngor ac mae’n nodi gweledigaeth, gwerthoedd a blaenoriaethau’r awdurdod lleol.  Mae’r cynllun yn dynodi’r blaenoriaethau allweddol y gall y cyngor chwarae rôl sylweddol ynddynt wrth helpu i drawsnewid yr ardal a chael effaith gadarnhaol ar lesiant cenedlaethau’r presennol a’r dyfodol. corporate-plan-2022-2027.pdf (blaenau-gwent.gov.uk)

## Cynllun Llesiant Blaenau Gwent 2018-2023

Mae’r cynllun hwn yn cysylltu’r holl amcanion llesiant yn un strategaeth drosfwaol ar lefel uchel, ‘Y Blaenau Gwent y Mae Arnom ei Eisiau 2018-2023’

Mae amcanion strategol y gwasanaeth llyfrgelloedd yn adlewyrchu’r strategaethau cenedlaethol a lleol yng Nghymru a Blaenau Gwent.  Bydd y pwyslais ar gwmpasu cyd-destun y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol gan ganolbwyntio’n allweddol ar iechyd a llesiant cyffredinol. Well-beingPlan(Layout)-D8.pdf (blaenau-gwent.gov.uk)



## Ein Nodau Strategol Allweddol

### Diwylliant Cymru a Chyfoethogi Creadigol

Byddwn yn hyrwyddo ein gwasanaethau er mwyn eu sefydlu fel canolbwynt i fywyd diwylliannol cymunedol, gan drefnu a rhedeg amrywiaeth o weithgareddau. Mae ein llyfrgelloedd mewn sefyllfa dda i ymestyn ymgysylltiad diwylliannol oherwydd ein bod yn cael ein defnyddio gan bob grŵp cymdeithasol a'n rôl fel canolfannau diwylliannol cynhwysol mewn cymunedau. Bydd defnyddio dull rhagweithiol i ymwneud â gwaith partneriaeth yn sicrhau ein bod yn cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau a fydd yn apelio at gynulleidfaoedd eang. Mae'r gweithgareddau hyn yn cefnogi cydlyniad cymdeithasol, yn cynyddu sgiliau ac yn lleihau unigrwydd cymdeithasol trwy annog cyfranogiad mewn gweithgareddau ar y cyd.

Byddwn yn cefnogi hyn trwy

- Hyrwyddo'r Gymraeg a stoc gyda thema Gymreig
- Annog defnydd o'n mannau anffurfiol, am ddim i bartneriaid gyflwyno gweithgareddau diwylliannol
- Rheoli casgliadau o ddeunyddiau hanes lleol a chynnig mynediad at adnoddau hanes teulu
- Mynd ati yn weithredol i annog pobl i ymwneud â gweithgareddau diwylliannol i frwydro yn erbyn allgauedd cymdeithasol a chynorthwyo iechyd a llesiant.

### Gwell Mynediad Digidol

Byddwn yn annog ein llyfrgelloedd i fod y darparwr ddaw gyntaf i feddwl pawb o ran y man i gael mynediad digidol. Rydym yn darparu rhwydwaith yr ymddiriedir ynddi o gyfrifiaduron hygyrch a WiFi am ddim, gyda staff llyfrgell wedi eu hyfforddi, gwirfoddolwyr a phartneriaid sy'n rhoi cefnogaeth i gynnig amrywiaeth eang o gefnogaeth a gweithgareddau digidol.

Byddwn yn cefnogi hyn trwy

- Rymuso pobl i ddatblygu sgiliau digidol trwy gynyddu hyder a chefnogi dysgu
- Ddatblygu prosiectau digidol newydd i helpu i frwydro yn erbyn y rhaniad digidol, e.e. benthyca tabledi a chynnig argraffu Wi-Fi
- Ddatblygu sgiliau'r staff i gyrraedd cynulleidfa ehangach trwy ymgysylltu digidol
- Ddatblygu model hyb cymunedol a rennir gyda'r awdurdod lleol i gefnogi preswylwyr i gael mynediad at wasanaethau e-Lywodraeth lleol a chenedlaethol

## Bywydau Pobl yn cael eu Cyfoethogi ac yn Cael Gwybodaeth trwy Ddarllen

Mae darllen a llythrennedd yn hanfodol fel dwy o’r sgiliau mwyaf sylfaenol mewn bywyd.  Bydd ein gwasanaeth yn cynnig mynediad am ddim at stoc, heb unrhyw ddirwyon, i holl aelodau ein cymuned.  Byddwn yn cynnig amrywiaeth o fformatau, gan gynnwys llyfrau llafar, print bras a digidol.

Byddwn yn cefnogi hyn trwy

- Gyflwyno cynlluniau darllen, e.e. Her Ddarllen yr Haf a datblygu rhaglenni newydd
- Gynnal grwpiau darllen, digwyddiadau awduron, sesiynau darllen creadigol a gweithgareddau eraill sy’n cefnogi llythrennedd
- Ddatblygu ein cyrraedd ymhellach mewn cymunedau trwy ymestyn benthyciadau cymunedol a gwasanaethau dosbarthu i’r cartref
- Farchnata effeithiol ar wasanaethau e-lyfrau



## Helpu pawb i gyflawni ei botensial llawn

Bydd ein llyfrgelloedd yn annog ac ysgogi pobl i fanteisio ar ystod eang o weithgareddau dysgu.  Mae ein partneriaeth waith glos ag addysg oedolion yn y gymuned yn ein helpu i gyflawni’r nod hwn.  Mae ein rôl o fod yn ddarparwr addysg anffurfiol wedi ymwreiddio’n gadarn yn y gymuned leol, gyda pheirianwaith cyfeirio clir at addysg fwy ffurfiol.

Byddwn yn cefnogi hyn trwy

- Fod yn fan cyswllt ym mhob cymuned at wybodaeth leol a chenedlaethol i gefnogi gwaith, iechyd, llesiant a dysg unigolion. Bydd yr holl adnoddau gwybodaeth yn gyfredol, yn berthnasol ac yn hygyrch.
- Ddarparu adnoddau am ddim ar gyfer astudio a dysgu, gan gynnwys e-adnoddau a mannau tawel i astudio. Hefyd hyfforddiant anffurfiol ar lythrennedd gwybodaeth a chefnogaeth ddigidol.
- Alluogi ac annog sefydliadau partner i gyflwyno eu gwasanaethau o lyfrgelloedd, gan fanteisio ar ein gofod anffurfiol, am ddim.
- Archwilio cyfleoedd i ddarparu gwasanaethau newydd i breswylwyr i gynyddu'r cynnig mewn llyfrgelloedd, e.e. datblygu model hyb cymunedol y cyngor a'r bwriad i symud llyfrgell Abertyleri i Gapel y Drindod a fydd yn wasanaeth wedi ei gyd-leoli.

**Cynyddu Ffyniant**

Mae ffyniant Blaenau Gwent yn ddolen hanfodol i helpu i wella ansawdd bywyd a llesiant.

Byddwn yn cefnogi hyn trwy

- Weithio gyda Chyngor Blaenau Gwent i hwyluso cefnogaeth i gwmnïau newydd trwy'r rhaglen Effaith BG.
- Ddarparu cefnogaeth wedi ei theilwrio i rai sy'n chwilio am waith, gan gynnwys clybiau gwaith ym mhob llyfrgell
- Ddefnyddio'r nifer sy'n dod i mewn fel dangosyddion perfformiad lleol, gan gefnogi'r stryd fawr trwy annog cymaint o bobl ag sy'n bosibl i ddefnyddio llyfrgelloedd lleol, gan helpu i roi hwb i'r economi leol.
- Gefnogi agenda gwrthdlodi, fel rhoi'r dechrau gorau i fabanod mewn bywyd i ddefnyddio llyfrau trwy'r rhaglen Dechrau Da.

**Helpu pawb i fod yn iachach**

Mae llyfrgelloedd mewn sefyllfa ddelfrydol i gefnogi llesiant. Mae pob agwedd o'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at wneud i bobl deimlo'n well. O'r agwedd gymdeithasol o daclo unigrwydd i helpu pobl i ddeall eu cyflyrau iechyd yn well. Mae ein hamgylcheddau heb fod yn glinigol, yr ymddiriedir ynddynt yn cynnig amrywiaeth eang o grwpiau, gweithgareddau a mentrau iechyd a llesiant.

Byddwn yn cefnogi hyn trwy

- Ddarparu teitlau Darllen yn Well, Llyfrau ar Bresgripsiwn, Dementia a Llesiant.
- Ddatblygu'r gwasanaeth Dosbarthu Gartref ymhellach i dargedu rhagor o bobl unig.

- Annog rhagor o wasanaethau iechyd a llesiant a darparwyr i weithio mewn partneriaeth gyda llyfrgelloedd lleol, e.e. Hosbis y Cwm a grwpiau Gofalwyr
- Gynyddu'r nifer o weithgareddau iechyd a llesiant sy'n cael eu darparu mewn llyfrgelloedd




**Sut y byddwn yn cyflawni'r deilliannau yma**

**Datblygu'r gweithlu**

Byddwn yn annog a galluogi staff i ddilyn cymwysterau ffurfiol a chofrestru'n broffesiynol.  Byddwn yn ymdrechu i fynd dros yr isafswm o 1% o oriau gwaith staff i gyd ar gyfer hyfforddiant a datblygu proffesiynol yn ystod y flwyddyn.  Bydd yr holl staff yn cael archwiliadau hyfforddiant cyson, lle bydd anghenion yn cael eu dynodi. Rhoddir pwyslais penodol ar hyfforddiant mewn ymgysylltu digidol.

**Cynyddu Defnydd a datblygu cynlluniau cefnogi cymunedol**

Byddwn yn gweithio gyda grwpiau lleol a phartneriaid i gyrraedd cymunedau ynysig. Byddwn yn ceisio darparu gwasanaethau llyfrgell o'r lleoliadau hyn, e.e. Sefydliad y Glowyr yn Llanhiledd.  Gosodir targedau lleol i'r holl lyfrgelloedd i gynyddu eu defnydd a threfnir ymgyrchoedd aelodaeth cyson ar draws sianeli cyfryngau cymdeithasol a thrwy allestyn i'r gymuned.  Daeth rôl cefnogi cymunedau ein llyfrgelloedd yn bwysicach yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae holl ethos yr agenda hon yn ymwneud â newid bywydau er gwell.  Bydd ein holl wasanaethau llyfrgell yn cwmpasu hyn a byddwn yn sicrhau bod defnyddwyr yn gallu cael mynediad at y gwasanaethau hyn mewn llyfrgelloedd lleol, pan fydd eu hangen.



**Adeiladau addas i’r diben**

Byddwn yn sicrhau bod ein holl adeiladau yn fodern a chroesawus.  Bydd yr oriau agor yn gweddu i anghenion y gymuned a bydd y gwasanaethau yn canolbwyntio ar fodloni anghenion lleol.  Mae gennym raglen barhaus o adnewyddu TG a byddwn yn sicrhau y byddwn yn adnewyddu’r dechnoleg i fodloni anghenion cwsmeriaid.  Byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd i gael cyllid a fydd yn ein galluogi i adnewyddu a moderneiddio ein llyfrgelloedd.  Byddwn yn datblygu cyfleoedd i ddarparu gwasanaethau ar yr un safle a gweithio mewn partneriaeth â’r awdurdod lleol i ddatblygu hybiau cymunedol, a fydd yn darparu gwasanaeth llyfrgelloedd cynaliadwy yn y tymor hir.



## Cydlynu a gweithio mewn partneriaethau cryfach

Bydd y gwasanaeth yn chwarae rhan ragweithiol mewn cynlluniau a phrosiectau llyfrgell rhanbarthol a chenedlaethol.  Fel awdurdod bychan, mae'r gwasanaeth yn cydnabod manteision mawr gweithio'n gydweithredol, wrth leihau costau a rhannu arfer da. Gall ein sector gael mwy o effaith trwy gyfuno arbenigedd a rhannu syniadau am welliant a dealltwriaeth.  Byddwn yn parhau i argymell dull rhagweithiol o fynd ati i weithio mewn partneriaeth, trwy gysylltu gyda'r cyhoedd, a sefydliadau preifat, gwirfoddol a chymunedol yn lleol.

## Bod yn Berthnasol

Byddwn yn sicrhau bod ein casgliadau yn gyfredol a byddwn yn adolygu ein polisi stoc yn flynyddol.  Byddwn yn dewis ystod eang o stoc, gan wneud y mwyaf o'r gronfa lyfrau sydd ar gael i ni.  Byddwn yn ymgynghori'n gyson gyda'n defnyddwyr a'r rhai nad ydynt yn defnyddio i sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaethau y mae eu hangen.  Byddwn yn gofalu bod y dechnoleg yn gyfredol ac yn parhau i helpu cynhwysiant digidol trwy amrywiaeth o weithgareddau.  Byddwn yn datblygu strategaeth cyfryngau cymdeithasol ac yn gweithio'n fwy clos gyda'r Swyddog Marchnata Digidol yn yr Ymddiriedolaeth. Bydd y cynnig llwyfan ddigidol i Gymru gyfan yn cael sylw amlwg trwy ein holl sianeli cyfryngau cymdeithasol.

## Gweithio gyda gwirfoddolwyr

Byddwn yn cefnogi gwirfoddolwyr i 'ychwanegu gwerth' at gynnig y llyfrgelloedd. Byddwn yn datblygu ein polisi gwirfoddolwyr ymhellach a sicrhau bod gan yr holl wirfoddolwyr ddisgrifiad clir o'u swyddogaeth ac yn cael eu rheoli gan drefnydd gwirfoddolwyr penodol. Bydd gwirfoddolwyr yn cael eu hyfforddi a byddant yn ymwybodol o nodau ac amcanion cynnig y llyfrgelloedd.  Bydd cynnig cyfleoedd i

wirfoddolwyr hefyd yn gwella hyder ac iechyd a llesiant yr unigolion fydd yn cymryd rhan.




**Adroddiadau am Berfformiad**

Bydd dangosyddion perfformiad misol yn cael eu rhannu gyda'r uwch reolwyr a holl staff y llyfrgelloedd. Bydd adroddiadau chwarterol yn cael eu cwblhau a'u rhannu gyda'r awdurdod lleol. Bydd y gwasanaeth yn llenwi adroddiad asesu blynyddol i Lywodraeth Cymru. (Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru) Cyhoeddir yr adroddiad asesu ar wefan Llywodraeth Cymru (Adran Amgueddfeydd, Archifau ac Amgueddfeydd). Fe'i cyhoeddir hefyd ar wefan Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin. Cyflwynir yr adroddiad hefyd i'r Pwyllgor Craffu yn flynyddol. Rhoddir adroddiad am berfformiad y llyfrgelloedd mewn cymhariaeth â Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru hefyd i'r awdurdod lleol ar gyfer y Dulliau Mesur Atebolrwydd Cyhoeddus (PAMS)

**Ymgynghori â Chwsmeriaid**

Mae'r gwasanaeth yn cynnal arolygon defnyddwyr yn gyson i gasglu eu barn a gwybodaeth am eu hanghenion fel y byddant yn newid. Cynhaliwyd arolwg cwsmeriaid o oedolion a phlant ym mis Chwefror/Mawrth 2023

- 70% o oedolion yn meddwl bod defnyddio'r llyfrgell wedi eu helpu i ddatblygu sgiliau newydd
- 100% o oedolion yn meddwl bod y llyfrgell yn rhoi mwynhad, yn ddiogel a chynhwysol.
- 96% o oedolion yn meddwl bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth yn eu bywydau.
- 94% o blant 7-16 oed yn meddwl bod y llyfrgell wedi eu helpu i ddysgu a chanfod atebion
- 99% o oedolion yn meddwl bod safon gofal cwsmeriaid yn 'dda iawn' neu 'dda'

- 97% o oedolion yn meddwl bod y llyfrgell yn ‘dda iawn’ neu ‘dda’ yn gyffredinol.